

Cofnodion cyfarfod 12/12/2019

Presennol: Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Sharon Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price

Cynghorydd Dilwyn Morgan (Gwynedd), Lis Puw (Clerc).

1. **Croesawyd** yr aelodau gan y Maer. Llongyfarchodd y Clerc, ar ran y Cynghorwyr i gyd, y Maer am gael ei ddewis yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr cyntaf Ysgol Godre'r Berwyn, a hefyd llongyfarchwyd Sue Davies am gael ei dewis yn Is Gadeirydd.

Cyfeiriodd y Maer yn ei sylwadau at y Noson Siopa hwyr llwyddiannus. Cyhoeddodd mai Siop Cocoa a enillodd gwobr y Cyngor am y ffenest siop orau, a'u dewis hwy oedd cyfrannu'r £50 o wobwr tuag at yr Ambiwylans Awyr. Siop Kel enillodd y wobwr gyntaf am addurniadau tu allan i'r siop, ac roedd y Maer yn falch o gyhoeddi fod y perchnogion wedi gofyn i'r Cyngor gyfrannu'r wobwr ariannol hael tuag at Tŷ Gobaith.

Diolchodd i Awel Jones am ei chyfraniad caredig o flodau pabi gwyn i'w cynnwys ar y dorch ar Sul y Cofio.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mabon Rhys, Carol Rowlands a John Caradog Williams.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 7/11/19.
4. **Materion y Clerc:** Dywedodd y Clerc ei bod wedi llunio adroddiad y Cyngor ar fioamrywiaeth ac wedi ei anfon at Lywodraeth Cymru. Cytunwyd i dynnu sylw Cyfoeth Naturiol Cymru at yr angen i sicrhau cynefin a fydd yn cyfrannu at fioamrywiaeth wrth iddynt ddatblygu arglawdd Llyn Tegid. Cytunodd Tony Parry i'w hatgoffa o hyn yn ei gyfarfodydd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru .
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd. Dywedodd fod datblygiad y Ganolfan deulu newydd yn symud ymlaen yn dda. Dywedodd hefyd y bydd yn mynychu cyfarfod cychwynnol gyda Gorsedd Eisteddfod Powys i drafod gwahodd yr Eisteddfod i'r dref. Soniodd fod swyddogion yn ymwybodol o'r broblem o finiau yn cael eu gadael yn barhaus ar y pafin, a dywedodd fod y swyddogion yn cymryd camau i berswadio perchnogion i'w cadw o fewn i'w libart.
6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Rhannwyd adroddiad Tony Parry a dywedodd y cynhelir pwnn a noson agored yn y Ganolfan Hamdden i'r cyhoedd gael gweld a gwneud sylwadau ar y cynllun cryfhau arglawdd Llyn Tegid. Gellir gweld y cynlluniau yn Llyfrgell Y Bala a gellir gwneud sylwadau ar lein ar LlynTegid@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk erbyn 10 Ionawr 2020.
7. **Is-bwyllgor y Nadolig / Grŵp Busnes:** Derbyniwyd adroddiad a oedd yn cyfeirio at anawsterau lleoli'r wifi ar gyfer busnesau'r dref, yn bennaf oherwydd adeiladau rhestredig. Cyfeiriwyd at lwyddiant y Noson Siopa Hwyr ac at ymdrechion nifer o fusnesau i addurno tu allan i'w siopau.

8. **Materion Cynllunio:** Dim cais.
9. **Materion Cyllid:** Cytunwyd i dalu anfonebau
- i. Aelodaeth ico (debyd uniongyrchol) £40
 - ii. Grŵp Busnesau'r Dref – wi-fi – yr hyn oedd yn brin o'r talid cyntaf
 - iii. Gosod mainc ym Mlaenddol £60
 - iv. Cynnal gwefan y Cyngor £150
 - v. Gwasanaeth Archwilio BDO £267
 - vi. edf Trydan ar goed Nadolig 2019 £50.52
 - vii. Llun gopïo – Ysgol Godre'r Berwyn £1.40
10. **Gohebiaeth:**
- i. Parc Cenedlaethol Eryri – Nodwyd derbyn gwybodaeth am y Gorchymyn gwarchod Coed ar dir tu cefn i'r Red Lion sydd bellach yn orchymyn parhaol.
 - ii. Cyngor Gwynedd – derbyniwyd gwybodaeth am newid colofnau stryd yn Yr Hafan.
11. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a gyfeiriodd at lwyddiant y cais grant i uwchraddio'r llawr uchaf, llwyddiant gweithgareddau'r Noson Siopa Hwyr yng Nghanolfan Henblas , ac at lwyddiant y gweithdy a gynhaliwyd ar gyfer Cyngorwyr ardal Penllyn i gyd.
12. **Asedau'r Cyngor:** Gohiriwyd
13. **Y Domen:** Ystyried prisiau ar gyfer gwaith ar y Domen: penderfynwyd gohrio'r drafodaeth ar drwsio Panel Gwybodaeth y Domen oherwydd y dymuniad i greu cyfres o baneli yn y dre. Addawodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan i chwilio am gyllid ar gyfer y math hwn o brosiect.
14. **Materion lleol y Cyngorwyr Tref:** Cytunwyd i dynnu sylw NMWTRA eto fod y polion a osodwyd i warchod y coed yn achosi difrod i geir sy'n parcio yn eu hymyl, a chyfeiriwyd yn arbennig at y rhai sydd wrth safle parcio'r anabl yn ymyl y goleuadau croesi ffordd.
15. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 9/1/20